# LLOYD, HENRY (c. 1720 - 1783), milwr ac ysgrifennwr ar faterion milwrol

**Enw:** Henry Lloyd
**Dyddiad geni:** c. 1720
**Dyddiad marw:** 1783
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** milwr ac ysgrifennwr ar faterion milwrol
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Milwrol
**Awdur:** Samuel Henry Fergus Johnston

Ganed yn Cwm Bychan, plwyf Llanbedr, Sir Feirionnydd. Braidd yn annelwig yw manylion ei yrfa; o'r cofiant iddo gan ei gyfaill John Drummond y ceir hwynt gan mwyaf. Pleidiai achos y Jacobitiaid ac aeth i Ffrainc gan obeithio cael comisiwn ym myddin y wlad honno, eithr gan iddo fethu daeth yn frawd lleyg yn un o'r urddau crefyddol a bu'n rhoi addysg mewn pynciau milwrol i swyddogion yr ' Irish Brigade.' Yr oedd yn bresennol yn Fontenoy (1745). Cymerodd ran yng ngwrthryfel y Jacobitiaid, 1745; ei ran yn hwnnw oedd gwasnaethu fel swyddog cudd gyda gorchymyn i gadw mewn cyswllt â gwyr o Gymru yr oedd iddynt gydymdeimlad ag achos y Stewartiaid. Dywed iddo gael ei gymryd i'r ddalfa yn 1746. Wedi i hynny ddigwydd iddo, bu'n gwasnaethu ym myddin Ffrainc a chafodd ei anfon i Loegr i baratoi adroddiad ar bosibilrwydd glanio ar arfordir deheuol Prydain. Bu'n gwasnaethu hefyd ym myddinoedd Prussia, Austria, a Russia, a chyrhaeddodd radd major-general. Ymddengys iddo, tua diwedd ei oes, ddyfod i ddealltwriaeth â Llywodraeth Prydain a roes bensiwn iddo. Bu farw yn Belgium yn 1783.

Gwaith llenyddol pwysicaf Lloyd oedd *The History of the late War in Germany between the King of Prussia and the Empress of Germany and her Allies* (dwy gyfrol, a gwahanol argraffiadau a chyfieithiadau); yn y gwaith hwn ceir myfyrdodau ac ystyriaethau'r awdur ar gelfyddyd milwrio, adran a fu'n fawr ei dylanwad ar Napoleon Bonaparte ac arweinwyr milwrol eraill ac a ddug enwogrwydd i'r awdur mewn gwahanol wledydd ar gyfandir Ewrop. Cyhoeddodd hefyd *Political and Military Rhapsody on the Defence of Great Britain*; y mae'r argraffiad cyntaf, 1779, yn brin, eithr cafwyd amryw adargraffiadau wedi hynny.

## Awdur

**Yr Athro Samuel Henry Fergus Johnston**, (1908 - 1991)

## Ffynonellau


Y cofiant gan Drummond sydd ar flaen argraffiadau diweddarach o'r *A Political and Military Rhapsody on the Invasion and Defence of Great Britain and Ireland. Illustrated with three copper-plates ... To which is annexed an introduction, and a short account of the author's life [by J. Drummond]* (Llundain 1790)

Liddell Hart yn *Journal of the Society for Army Historical Research*, xii, 138-52

Ar Lwydiaid Cwmbychan gweler Thomas Pennant, *A Tour (Tours) in [North] Wales* (arg. John Rhys), ii, 267-70


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 46880887

Wikidata: Q1606988


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu